

# Twyll Ffôn

## Byddwch yn ofalus wrth ateb galwadau gan ddieithriaid…

- Peidiwch BYTH â datgelu unrhyw wybodaeth bersonol neu fancio, rhifau PIN, cyfrineiriau, codau awdurdodi, manylion cerdyn, pasbort – mae'r rhestr yn ddiddiwedd.
- Ni fydd y banc, yr heddlu neu unrhyw gwmni arall dibynadwy byth yn gofyn ichi drosglwyddo arian i fanc arall i amddiffyn eich arian rhag twyll.
- Bydd galwr sy'n esgus ei fod yn gweithio i'ch banc, yr heddlu neu gwmni dibynadwy arall yn swnio'n broffesiynol. Peidiwch â chael eich twyllo gan eu proffesiynoldeb.
- Os ydych chi'n ansicr ynghylch galwr, heriwch ei hunaniaeth drwy ei alw'n ôl ar rif fedrwch ei gael gan y cwmni ei hun. Defnyddiwch linell ffôn wahanol os yn bosibl.
- Os yw'n teimlo fel pe bai'r galwr yn rhoi pwysau arnoch i roi'r manylion iddo, rhowch y ffôn i lawr.
- Ni ofynnir byth ichi dalu AHEM neu'r Asiantaeth Trwyddedu Teledu drwy gardiau rhodd.
- Cofiwch, beth bynnag maen nhw'n cynnig ichi, os yw'n gynnig rhy dda i'w gredu, peidiwch â'i gredu.
- Gofynnwch i berthynas neu ffrind dibynadwy am gymorth os ydych chi'n credu'ch bod chi wedi derbyn galwad amheus.
- Os ydych chi'n poeni am eich cyfrif banc yn dilyn galwad ffôn, galwch eich banc.
  **Nodwch fanylion cyswllt eich banc fan hyn:**

Heddlu Police
DYFED-POWYS

Os ydych chi'n credu'ch bod chi wedi dioddef twyll, galwch eich banc ac yna rhowch wybod i Heddlu Dyfed-Powys ar **101**.

# Telephone Scams



## Be careful when answering calls from strangers…

- NEVER disclose any personal or banking information, PINs, passwords, authorisation codes, card details, Passport - the list goes on.
- The bank, police or any other trusted company will never ask you to transfer money to another bank account to protect your money from fraud.
- Someone calling pretending to be from your bank, police or any other trusted company will sound professional. Don't be fooled by their professionalism.
- If you're unsure about a caller, challenge their identity by calling them back on a number you can obtain from the company yourself. Use a different phone line if possible.
- If you feel as though the caller is pressuring you into handing over details, hang up.
- You will never be asked to pay HMRC or TV Licensing by gift cards.
- Remember, whatever they offer you; if it sounds too good to be true, then it usually is.
- Ask a trusted friend or relative for help if you believe you have received a suspicious call.
- If you are worried about your bank account following a call, ring your bank. **Note your bank contact details here:**

Heddlu Police
DYFED-POWYS

If you believe you have been subject to a scam, call your bank and then inform Dyfed Powys Police on **101.**